

Gwasanaethau ar gyfer pobl sydd â nam ar eu synhwyrau

Y cymorth rydyn ni'n ei roi i bobl sy'n wynebu colli clyw neu olwg

Ydych chi'n cael anawsterau â'ch clyw neu'ch golwg? Efallai bod modd inni eich helpu chi i wella'ch annibyniaeth er mwyn ichi fyw bywyd llawnach a mwy cynhwysol. Mae cyfrifoldeb arnon ni i asesu anghenion plant, pobl ifainc ac oedolion sy'n fyddar neu sy'n drwm eu clyw, sydd â nam ar eu golwg neu sy'n fyddar a dall. Rydyn ni hefyd yn rhoi gwybodaeth, cymorth a chyingor i'w cynhalwyr (gofalwyr). Mae'r daflen hon yn esbonio rhagor am ein Carfan Materion y Synhwyrau.

Yr hyn sy'n bwysig i chi

Er mwyn i ni, neu eraill, eich helpu chi mae angen i ni wybod am yr hyn sy'n bwysig i chi, sut ydych chi'n ymdopi â'r nam ar eich synhwyrau a beth yw'ch nodau personol. Byddwn ni yn gwneud hyn drwy gynnal asesiad gyda chi.

Ydych chi eisiau ein cymorth yn bennaf oherwydd y nam ar eich synhwyrau? Os ydych, bydd staff o Garfan Materion y Synhwyrau yn cynnal asesiad arbenigol yn eich cartref. Efallai bydd hyn yn ategu'r asesiad cyffredinol y gallai staff y Carfanau Gofal a Chymorth ei gynnal er mwyn sefydlu eich anghenion cymorth cyffredinol er mwyn cyflawni'r hyn sy'n bwysig i chi. Bydd ein canfyddiadau yn gymorth inni benderfynu a ydych chi'n gymwys i dderbyn ein cymorth, yn ogystal â nodi'r gwasanaethau eraill a fydd, o bosibl, yn eich helpu.

Sut rydyn ni'n eich cefnogi chi:

Bydd staff y Garfan Materion y Synhwyrâu yn eich cynghori chi ar foddau i gyflawni'r hyn sy'n bwysig i chi. Mae modd inni, er enghraifft, roi cyngor i chi ar ddysgu sgiliau newydd i'ch helpu chi i ymdopi'n well â'ch sefyllfa, neu ddatblygu sgiliau newydd, fel darllen Braille.

Efallai bydden ni'n eich cynorthwyo chi i ehangu'r sgiliau sydd gennych chi eisoes, efallai i gynyddu'ch gallu i gael mynediad at y pethau yn eich cymuned yr hoffech chi gael mynediad atyn nhw. Mae modd inni roi gwybod i chi am gyfarpar a fyddai'n eich cynorthwyo chi â rhai o'ch anawsterau, fel ffôn fwy o faint neu gloch drws sy'n fflachio.

Mae modd inni roi gwybodaeth am amrediad o offer er mwyn diwallu anghenion penodol neu roi cyngor ar wasanaethau lladmeryddion neu gyfathrebwyr mewn rhai amgylchiadau.

Mae gennym ni ddyletswydd i gynnal cofrestrau o'r bobl sy'n byw yn Rhondda Cynon Taf sydd â nam ar eu golwg neu'u clyw. Mae'r cofrestrau yma'n ein helpu ni i ddatblygu gwasanaethau a chânt eu defnyddio i gynnwys y rheiny sy'n defnyddio ein gwasanaeth yn y broses gynllunio. Mae modd inni roi gwybodaeth ichi ynglŷn â chofrestru'n berson sydd â nam difrifol ar y golwg (dall), yn berson sydd â nam ar y golwg (rhannol ddall) neu'n berson byddar. Mae modd inni hefyd esbonio'r manteision y cewch chi o ganlyniad i hyn.

Cymorth arall sydd ar gael

Rydyn ni'n gweithio ar y cyd ag adrannau eraill o'r Cyngor (er enghraifft gwasanaethau tai a gwasanaethau addysg), gwasanaethau iechyd a'r sectorau gwirfoddol a phreifat i gynnig gwasanaeth cynhwysfawr, di-dor i blant, pobl ifainc ac oedolion sydd â nam ar eu synhwyrâu.

Y costau

Yn dilyn asesiad os ydych chi'n gymwys ar gyfer Gwasanaethau Gofal a Chymorth yna mae'n bosib y bydd rhaid talu, yn dibynnu ar eich amgylchiadau. Byddwn ni'n trafod y taliadau yma gyda chi cyn darparu unrhyw wasanaeth, felly fyddwch chi ddim yn derbyn unrhyw filiau annisgwyl.

Eich Hawliau

Efallai'ch bod chi'n pryderu am bethau personol iawn. Bydd unrhyw beth rydych chi'n dweud wrthon ni'n cael ei drin yn unol â'r Rheoliadau Gwarchod Data Cyffredinol. Byddwn ni'n cadw cofnodion o bob cyfarfod gyda chi mewn ffeil. Mae gennych hawl i weld y ffeil. Mae modd inni roi manylion pellach i chi am y broses o weld eich ffeil.

Dweud eich dweud

Rydyn ni'n gweithio'n ddygn i fodloni'ch disgwyliadau trwy gynnig y gofal gorau posib i ddiwallu'ch anghenion. Efallai na fyddwch chi'n cytuno â phob dim rydyn ni'n ei ddweud neu'n ei wneud. Mae gennych chi bob hawl i gwestiynu unrhyw benderfyniad rydyn ni'n ei wneud a rhoi gwybod i ni os ydych chi'n anhapus gydag unrhyw beth. Bydd eich ymateb ynglŷn â'r gwasanaeth (cadarnhaol neu negyddol) yn y bôn yn gwella'r ffordd rydyn ni'n rhoi cymorth i chi ac eraill yn y dyfodol. Mae modd inni roi rhagor o wybodaeth am gyflwyno sylwadau neu gwynion am y gwasanaeth. Cewch ofyn am daflen sy'n rhoi rhagor o wybodaeth i chi am ein proses gwneud cwyn. Mae manylion ynglŷn â sut i gysylltu â'r Uned Sylwadau a Chwynion i'w cael yn y rhestr o ddolenni cyswllt ar waelod y ffeithlen yma.

Cysylltu â ni

Os nad ydych chi'n derbyn cymorth gan y Garfan Materion y Synhwyrâu ar hyn o bryd a hoffech chi wneud cais am gymorth, ffoniwch y Garfan Ymateb Cyntaf ar on **01443 425003** neu'r Garfan Plant ag Anableddau (gwasanaethau i blant a phobl ifainc o dan 18 oed) ar **01443 425006**

Fel arall, anfonwch e-bost at y naill garfan:
gwasanaethaucymdeithasol@rctcbc.gov.uk

Mae'r **Gwasanaethau tu allan i Oriau Gwaith** yn ymateb ar frys i achosion o argyfyngau gofal cymdeithasol tu allan i oriau gwaith arferol, ar wyliau'r banc ac ar benwythnosau. Ffôn: **01443 743665**

Mae'r Uned Cynrychiolaeth a Chwynion yn falch i dderbyn gair o ganmoliaeth, eich sylwadau neu'ch cwynion am ein gwasanaethau. Ffôn: **01443 425003**

E-bost: gwrando.cwynion@rhondda-cynon- Taf.gov.uk

Mae'r wybodaeth yma ar gael mewn sawl iaith a diwyg (Cymraeg, Saesneg, ieithoedd eraill, print bras a Braille).

Hoffech chi fwrw sylwadau am y ffeithlen hon, neu unrhyw wybodaeth arall rydych chi wedi'i chael oddi wrth y gwasanaethau cymdeithasol?

Pe hoffech chi, cysylltwch â

gwasanaethaucymdeithasol@rctcbc.gov.uk
neu'r Garfan Ymateb ar Unwaith ar **01443 425003**